OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 1132

## Gorchymyn Rheilffyrdd Caerdydd a'r Cymoedd (Trosglwyddo) 2019

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y cwmnïau" ("*the companies*") yw—

(a) Keolis Amey Wales Cymru Limited (Rhif cofrestru'r cwmni 11391059) y mae ei swyddfa gofrestredig yn Nepo Maendy Amey Rail, oddi ar Caerleon Road, Casnewydd NP19 9DZ, a

(b) Amey Keolis Infrastructure/Seilwaith Amey Keolis Limited (Rhif cofrestru'r cwmni 11389544) y mae ei gyfeiriad cofrestredig yn The Sherard Building, Edmund Halley Road, Oxford OX4 4DQ;

ystyr "cynllun trosglwyddo" ("*transfer scheme*") yw cynllun a wneir o dan erthygl 3(1) (cytundebau â Network Rail ar gyfer cynlluniau trosglwyddo);

ystyr "darpariaeth statudol" ("*statutory provision*") yw darpariaeth, pa un a yw'n un gyffredinol neu o natur arbennig, a geir mewn unrhyw Ddeddf, neu mewn unrhyw ddogfen a wneir neu a ddyroddir o dan unrhyw Ddeddf, pa un a yw'n un gyffredinol neu o natur arbennig;

ystyr "y dyddiad perthnasol" ("*the relevant date*") yw'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym;

ystyr "llinellau craidd y Cymoedd" ("*the core Valley lines*") yw'r rheilffyrdd a awdurdodir gan y deddfiadau a restrir yn Atodlen 1 (y deddfiadau rheilffyrdd ar gyfer llinellau craidd y Cymoedd) ynghyd â phob darn o dir a gwaith sy'n ymwneud â'r rheilffyrdd hynny;

ystyr "Network Rail" ("*Network Rail*") yw Network Rail Infrastructure Limited (Rhif cofrestru'r cwmni 02904587) y mae ei swyddfa gofrestredig yn 1 Eversholt Street, London, NW1 2DN ac unrhyw un o gwmnïau cysylltiedig Network Rail Infrastructure Limited sy'n dal eiddo at ddibenion rheilffordd, ac at ddibenion y diffiniad hwn ystyr "cwmni cysylltiedig" ("*associated company*") yw unrhyw gwmni sydd (o fewn ystyr adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau 2006(**1**)) yn gwmni daliannol Network Rail Infrastructure Limited neu sy'n un o is-gwmnïau eraill cwmni daliannol Network Rail Infrastructure Limited;

ystyr "y rheilffyrdd a drosglwyddir" ("*the transferred railways*") yw cynifer o linellau craidd y Cymoedd ag y gellir eu trosglwyddo i'r ymgymerwr drwy gynllun trosglwyddo;

ystyr "ymgymeriad llinellau craidd y Cymoedd" ("*the core Valley lines undertaking*") yw'r rhan o ymgymeriad Network Rail sy'n cynnwys llinellau craidd y Cymoedd, ac unrhyw dir, gwaith, eiddo arall, hawliau, atebolrwyddau neu rwymedigaethau, statudol neu fel arall, sy'n ymwneud â llinellau craidd y Cymoedd;

ystyr "yr ymgymerwr" ("*the undertaker*") yw Trafnidiaeth Cymru (Rhif y Cwmni 09476013) a ymgorfforwyd o dan Ddeddf Cwmnïau 2006, sy'n gwmni cyfyngedig drwy warant, y mae

(**1**) 2006 p. 46.

ei swyddfa gofrestredig yng Nghanolfan QED, Prif Rodfa, Stad Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf CF37 5YR.